

**Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a
gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Lanfachreth
Nos Fawrth, Mai 16, 2023 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Preseanol Cyngorwyr Meurig Ashton (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Barry Jones, Robin Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts a Llion Williams, Karen G. Goswell

3. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Meurig Ashton

Is Gadeirydd: Gerallt Griffith

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones

Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith

Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts

Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton

Un Llais Cymru (2): Gerallt Griffith, Meurig Ashton.

4. Datgan diddordeb.

Roedd Rhun Prys Jones yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 8.ch.

5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 21, 2023.

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 21, 2023.

Eitem 6.r. Llythyr (5/4/2023) oddi wrth Priffyrdd, Peirianeg a YGC, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod y linc i gynghorau cymuned / tref yw Adrodd problem (llyw.cymru) neu ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost tacluso@gwynedd.llyw.cymru. ac nid [Timau Tacluso 'Ardal Ni' Tidying Teams \(sharepoint.com\)](https://www.sharepoint.com/teams/Timau%20Tacluso%20Ardal%20Ni%20Tidying%20Teams) sydd i gynghorwyr Gwynedd.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/3/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Mawrth a mis Ebrill, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Diolch am 20mph yn rhoi gwybodaeth am y cynllun a manteision cael 20mya .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am eu rhaglen waith ym mis Ebrill 2023:

1. Bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Brithdir a Llanfachreth

2. Bydd gwaith tynnu camfa ddiffygiol a gosod giat i gerddwyr a newid giat ar lwybr yn Abergeirw.

3. Bydd gwaith symud coeden sydd o dan bont ar lwybr wrth Capel Soar, Rhydymain.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd os mae angen giat newydd ar lwybr mae angen giat a ddim ei newid i gamfa. Mae hyn oherwydd amgylchiadau fel beicwyr methu mynd ymlaen ar eu taith.

ch. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd terfyn cyflymder o 20mya yn cael ei gyflawni ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 17 Medi 2023. Os mae sylw mae angen ei gyflwyno iddynt cyn 28 Ebrill 2023. Rhoddi'r sylw ar linc www.gwynedd.llyw.cymru/20mya* Mae'r linc yn cynnwys map yn rhoi y cynigion y cyflymder.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd y llythyr eto yn 3/4/2023 i atgoffa yr aelodau mae Cyngor Gwynedd angen sylwadau cyn Ebrill 28.

Anfonodd Robin Jones sylw ar y mater.

Anfonwyd llythyr (12/4/2023) derbyniwyd gan Delyth yn rhoi gwybod i'r aelodau mae angen cael gwybod os ydych yn barod i bentref Brithdir i fynd yn 20mya. Mae angen datganiad gan y Cyngor Cymuned cyn 28/4/2023 (neu gynt os yn bosib) i gytuno gyda'r datganiad. Anfonodd preswylwyr Brithdir petitiwn am gael 20mya ar hyd ffordd Brithdir.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 16, 2023

d. Llythyr (12/4/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Zoom ar ddydd Mercher, Ebrill 19 am 7.00yh. Amgáu mae'r Agenda, a Chofnodion Cyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 15, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (21/4/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Ebrill a Mai 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (9/5/2023) oddi wrth Swyddog Datblygu Iaith, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Menter Iaith Gwynedd yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg ar sut i gefnogi dysgwyr Cymraeg. Bydd y digwyddiad ar Fai 23ain drwy gyfrwng Zoom.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (25/4/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waith arwisgo (surface dressing) bydd yn cael ei wneud ym mis Mai) ar ffyrdd:

Caer Defaid – Troed y Rhiw, Rhydymain,
Rhedyncochion – Natcnidiwr, Bontnewydd,
Ffridd Carmel – Oreia, Llanfachreth,
Llety Wyn i gyffordd Hen Ysgol, Bryncoedifor, Rhydymain.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (11/5/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys dogfen 'Good Councillor's Guide to Employment'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (5/5/2023) oddi wrth Comisiwn Rhyfel Beddi'r Gymanwlad. Maent yn gwneud gwaith o lanhau cofebion y wlad i goffau lluoedd arfog y Gymanwlad ddaru syrthio yn ystod y ddau ryfel byd.

h. Llythyr (16/5/2023) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Rhydymain yn gofyn am ein cefnogaeth am grant i wella'r Neuadd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (3/4/2023) oddi wrth y Parc yn amgau dogfen 'Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Eryri'. Os mae barn ar yr Adroddiad maent ei angen cyn Mai 5, 2023 a trwy'r linc <https://www.eryri.llyw.cymru/ffurflen-adolygu-cdll>

Ni anfonwyd y ddogfen i'r aelodau oherwydd ei maint.

Derbyniwyd (6/6/2023) y ddogfen trwy e-bost ac fe anfonwyd i'r aelodau.

b. Cais cynllunio NP5/54/255B. Dymchwel sied amaethyddol bresennol o bren a sitiau sinc ac adeiladu sied amaethyddol newydd o ffram ddrur a clading a sitiau to metal. Llwyn-y-Sarn, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (1/5/2023).

c. Llythyr (28/4/2023) yn rhoi gwybod am Gronfa Cymunedau Eryri 2023-2024 bydd yn agor am geisiadau i gynorthwyo cymunedau i gynnal a gwella eu hansawdd a bywyd. Dyddiad cau yw 2/5/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Cais cynllunio NP5/54/459A. Cynllun Trydan Dŵr (34kw) yn cynnwys adeiladu pwerdy, argae a 3 pont trawst. Coedwig Cefn Ceunant Isaf, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

d. Cais cynllunio NP5/54/8D. Codi sied at ddibenion domestig. Gellfachreth, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

dd. Cais cynllunio NP5/54/250B. Gosod paneli solar ar hanner arwynebedd y to. 37 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

9. Materion Ariannol

a. Cerdyn (24/3/2023) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at yr Eisteddfod bydd yn cael ei gynnal dydd Sadwrn, Mehefin 10, 2023.

Penderfynwyd rhoi rhodd o £350.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 16, 2023

- b. Bil (30/3/2023) Treth Annomestig Cenedlaethol ar gyfer 2023/24 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim taliad am y cyfnod.
- c. Llythyr (26/4/2023) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £6,000 yn ein cyfrif ar 29/4/2023. Taliad am hanner blwyddyn.
- ch. Llythyr (10/5/2023) oddi wrth Zurich, ein cwmni yswiriant, am daliad o £609.50 i adnewyddu ein polisi am y cyfnod 01/6/2023 i 31/5/2024. Tâl flwyddyn ddiwethaf oedd £559.17. Cytunwyd derbyn 'Long Term Agreement' am 5 blynedd gyda Zurich h.y. 2020-2025 (Cofnodion Mehefin 16, 2020, Eitem 9.g.).

Penderfynwyd talu'r ffi.

- d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/4/2023: £1,148.04.
Balans yn y banc ar 29/4/2023: £11,150.56. (29/4/2022: £10,520.80).

10. Archwilio

- a. Llythyr (29/3/2023) oddi wrth Archwilio Cymru gyda Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2022 – 2023.

Llythyr (28/4/2023) oddi wrth Archwilio Cymru gyda dogfennau sydd angen fwy o wybodaeth at yr archwiliad.

- b. Anfonwyd (30/3/2023) llythyr i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt archwilio'r dogfennau'r Cyngor ar gyfer 2022 - 2023.

Anfonwyd llythyr (17/4/2023) i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau eu penodiad fel ein Archwilydd Mewnol. (Derbyniwyd templed ganddynt i'w gwblhau. Amgáu mae rhestr o wybodaeth maent ei angen i'r archwiliad).

- c. Anfonwyd (11/5/2023) i'r aelodau copi o adroddiad 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth 2022-2023'.

ch. Arwyddodd y Caeirydd y Ffurflen Flynyddol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

11. Adroddiad Cyngorydd Delyth Lloyd Griffiths

- a. Llythyr (24/3/2023) oddi wrth Mr Robert Moore, Ty Rhufeinig, Brithdir. Mae'n rhoi gwybod ei fod yn gwrthwynebu syniad Cyngor Gwynedd o gael cyfyngiad cyflymdra 20mya yn Brithdir Uchaf ac yna 30mya yn Brithdir Isaf. Mae o farn dylai'r cyfyngiad cyflymdra 20mya fod i'r pentref cyfan ac oherwydd dim ond ychydig sy'n gwybod am y newid mi ddylai ymgynghoriad gyda holl drigolion Brithdir cael ei gynnal.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Mae'r llythyr wedi ei anfon i Cyngor Gwynedd am sylw.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 16, 2023

b. Mae grantiau Cist Gwynedd yn agos ym Mis Mai eleni.
Mae grantiau cymunedol ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol £10,000 a £5000 ac mae yn bosib i neuaddau gael y pres yma i wneud gwelliannau ee. Cegin newydd neu ffenestri dwbwl. Nid yw y pres ar gael ar gyfer cynnal a chadw.
Mae pres SPF i gael ar gyfer chwaraeon os yw y cynllun yn cynnwys elfennau newydd.
Mae Cronfa Degwm ar gael ar gyfer Eisteddfodau.
Mae nifer o grantiau eraill agor ym Mis Mai.

Bydd Huw Antur(Llanuwchllyn) yn gweithio o Ddolgellau yn rhoi cymorth i grwpiau wneud ceisiadau.

Bydd angen gwario y pres cyn 1/1/25.

Rhannwch y wybodaeth yma gyda pwy bynnag sydd a diddordeb.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Cafodd trigolion yr ardal cyfarfod gyda Swyddog o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar safle Llyn Pwll-y-gele i gael syniadau sut i wella cyflwr y llyn.

12. Materion yr Aelodau

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

1. Mae angen clirio tyfiant sydd ar arwydd ffordd yn rhybuddio am troadau dwbl wrth Coed y moch Lodge (Clock Lodge). Mae'r arwydd ar ffordd Dolgellau i Llanfachreth rhwng Garth Bleiddyn a Coed y Moch.

2. Mae angen tocio canghennhau coed sydd yn tyfu i'r ffordd a'i gwneud yn gul rhwng y gyffordd wrth Gelli a Pwll y Gele, Llanfachreth.

3. Mae angen archwilio pontydd sydd ar yr hen reilffordd o Drws y Nant i Dolgamedd oherwydd maent yn dirywio.

Llofnod:

Dyddiad: